

The Brilliant Club

Cyfes Astudiaethau Achos Effaith

Mynediad Trwy

Gydweithio Cenedlaethol:

Cymell y gymuned PhD i gefnogi
parodrwydd ar gyfer prifysgol gydag
ysgolion yng Nghymru

Mehefin 2019



Cyfres Ymchwil ac Effaith

Mae'r **Cyfres Astudiaethau Achos Effaith** yn rhan o'n Cyfres Ymchwil ac Effaith, sy'n cynnig tair ffordd o ymgysylltu gyda gwaith Adran Ymchwil ac Effaith The Brilliant Club a gwaith ein partneriaeth. Cliciwch ar yr eiconau isod i ddysgu mwy:

Cyfres Seminarau Ymchwil

Fforwm i ymarferwyr ryngweithio ag ymchwil academaidd am addysg ac ehangu cyfranogiad.

Cyfres Astudiaethau Achos Effaith

Astudiaethau achos hygyrch sy'n mynd i'r afael â heriau thematig allweddol wrth ehangu cyfranogiad a chyfoethogi'r cwricwlwm.

Cyfres Adroddiad au Ymchwil

Adroddiadau ymchwil manwl yn edrych ar ffyrdd penodol rydym wedi ceisio gwella a gwerthuso effaith ein rhaglenni.

Ynghylch yr Awdur

Ysgrifennwyd yr astudiaeth achos yma gan David Jones o Raglen Ysgolheigion The Brilliant Club. David yw Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu'r Rhaglen Ysgolheigion ac mae'n goruchwylio hyfforddi tiwtoriaid PhD y rhaglen. Cyn ymuno â The Brilliant Club fel Swyddog Rhaglen, bu David yn athro cynradd yn Llundain ar ôl cwblhau ei TAR ym Mhrifysgol Caerfaddon.

Manylion Cyswllt

Dyma'r chweched mewn cyfres o astudiaethau achos effaith, ac mae'r cyfan ar gael ar ein [gwefan](#). Os hoffech chi ddysgu mwy am The Brilliant Club neu os oes gennych gwestiwn penodol ynghylch yr astudiaeth achos yma, cysylltwch â:

Paul Rünz, Rheolwr Effaith ac Adrodd, The Brilliant Club, paul.ruenz@thebrilliantclub.org

Ynghylch The Brilliant Club

Mae The Brilliant Club yn bodoli i gynyddu nifer y myfyrwyr o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n symud ymlaen i brifysgolion detholus iawn. Rydym yn gwneud hyn trwy ysgogi'r gymuned PhD i rannu ei harbenigedd ag ysgolion y wladwriaeth. Wrth ddilyn y genhadaeth hon, mae The Brilliant Club yn cyflwyno dwy raglen:



Mae'r Rhaglen Ysgolheigion yn recriwtio, hyfforddi a lleoli ymchwilwyr doethurol ac ôl-ddoethurol mewn ysgolion i gyflwyno rhaglenni o diwtorialau arddull prifysgol, a ategir gan ddwy daith i brifysgolion.



Mae Ymchwilwyr mewn Ysgolion yn recriwtio graddedigion PhD, eu lleoli fel athrawon dan hyfforddiant mewn ysgolion a'u cefnogi i ddatblygu'n athrawon rhagorol ac arweinwyr ymchwil sydd wedi ymrwymo i gau'r bwloch rhwng cyrhaeddiad a mynediad i'r brifysgol.

Dysgwch fwy am ein gwaith ar ein gwefan yn www.thebrilliantclub.org.

Crynodeb Gweithredol

Dyma'r chweched mewn cyfres o astudiaethau achos effaith ar faterion thematig ehangach sy'n gysylltiedig â mynediad i brifysgol. Mae'n cyflwyno'r heriau o gymhwyso ymyriadau mynediad i'r brifysgol sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn un cyd-destun i ddiwallu anghenion penodol cyfundrefn addysg wahanol. Yn benodol, mae'r astudiaeth achos yma yn disgrifio sut mae The Brilliant Club yn cyflwyno'r Rhaglen Ysgolheigion gyda'i bartneriaid yng Nghymru.

Mae myfyrwyr o Gymru'n cael eu tangynrychioli ym mhrifysgolion mwyaf detholus y DU.

- Mae myfyrwyr o Gymru'n symud ymlaen i addysg uwch ar raddfa is na myfyrwyr o Loegr a Gogledd Iwerddon: 29.6% o'i gymharu â 33.7% o bobl 18 oed o Loegr a 35.2% o bobl 18 oed o Ogledd Iwerddon (Adroddiad Diwedd Cylch UCAS 2018).
- Yn hanesyddol, mae myfyrwyr sy'n perfformio orau yng Nghymru wedi gwneud cais i Rydychen a Chaergrawnt ond heb fod mor llwyddiannus wrth dderbyn cynigion (Adroddiad Murphy, 2014).
- "Mae oddeutu traean o bobl ifanc 15 oed yng Nghymru'n disgwyl cael gradd israddedig" tra bod dros 40% o fyfyrwyr o Loegr yn disgwyl cwblhau cwrs gradd (PISA, 2015).

Dechreuodd The Brilliant Club weithio yng Nghymru yn 2015-16 gan weithio gyda bron i 900 o fyfyrwyr yng Nghymru erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2017-18.

- Trwy recriwtio, hyfforddi a lleoli ymchwilwyr doethurol ac ôl-ddoethurol mewn ysgolion i gyflwyno rhaglenni o diwtoriau arddull prifysgol, mae'r Rhaglen Ysgolheigion yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a phrifysgolion i gyflwyno dysgu arddull prifysgol mewn ysgolion ledled Cymru.
- Yn ystod hydref 2016, cynhaliodd y Rhaglen Ysgolheigion ei chyrtsiau cyntaf yng Nghymru gyda dwy ysgol a dau goleg Addysg Bellach a 40 o fyfyrwyr o Gyfnod Allweddol 5.
- Erbyn haf 2018, cyflwynwyd Rhaglen Ysgolheigion i 892 o fyfyrwyr yng Nghymru ar draws 45 o ysgolion a cholegau gan 31 o diwtoriaid PhD.

Trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol a gweithio gyda chyllidwyr i gefnogi twf, gellir cyflwyno'r Rhaglen Ysgolheigion yn effeithiol i ddiwallu anghenion a chefnogi blaenoriaethau'r gyfundrefn addysg yng Nghymru.

- Gweithiodd The Brilliant Club yng Nghymru am y tro cyntaf mewn partneriaeth gyda Rhwydwaith Seren, rhaglen flaenllaw ehangu mynediad Llywodraeth Cymru. Mae'r elusen bellach wedi gweithio gyda phob un o 11 canolfan ranbarthol Seren ac wedi cyflwyno Cynhadledd Genedlaethol Seren am y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Erbyn diwedd haf 2018, roedd 31 o ymchwilwyr PhD o Gymru a Lloegr wedi'u recriwtio a'u hyfforddi i gyflenwi 80 o leoliadau ledled de Cymru. Ymwelodd 846 o fyfyrwyr y Rhaglen Ysgolheigion o Gymru a Lloegr â Phrifysgol Caerdydd.
- Mae data disgyblion yn cael ei gasglu a'i gyflwyno'n wahanol yng ngwahanol wledydd y DU, felly mae mesurau targedu'r Rhaglen Ysgolheigion yn cael eu haddasu i adlewyrchu cyd-destunau addysg pob gwlad. Mae fîm The Brilliant Club yng Nghymru yn gweithio'n agos gyda phob ysgol i ddeall sut gall y rhaglen ategu a chefnogi eu blaenoriaethau a'u hamcanion.

Gall addasu rhaglen i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau addysgiadol penodol mewn cyd-destunau cenedlaethol a rhanbarthol amrywiol fod yn her, ac rydym yn parhau i ystyried sut gallwn gynyddu ein darpariaeth ledled Cymru i ddiwallu anghenion myfyrwyr Cymru yn

effeithiol. Yn yr astudiaeth achos yma, rydym yn rhannu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu hyd yma sut rydym yn ceisio sicrhau bod y rhaglen ar gael i bob ysgol wladol annetholus yng Nghymru sydd eisiau partneru gyda ni.

Mynediad i Brifysgol yng Nghymru

Ar draws y DU, mae cefndir economaidd gymdeithasol a daearyddiaeth yn dylanwadu ar ganlyniadau myfyrwyr a'u tebygolrwydd o symud ymlaen i addysg uwch. Yn y DU, mae'r bwlch rhwng cymdogaethau cyfranogiad isel a chyfranogiad uchel wedi aros yn ystyfnig o uchel o safbwynt cyfraddau mynediad i brifysgolion detholus iawn (data POLAR UCAS, 2018). Yn y cyfamser, mae myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol yn llai tebygol o symud ymlaen i brifysgol na myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel mewn ardaloedd trefol ('State of the Nation', y **Comisiwn Symudedd Cymdeithasol**, 2017).

Er bod yr ystadegau yma'n wir ar draws y DU, nid ydynt yn llwyr adlewyrchu sefyllfa fanwl mynediad i brifysgol ym mhedair gwlad y DU. Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae gwahaniaeth o 30 pwynt canradd rhwng y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r gweddill yng Nghyfnod Allweddol 4 ('State of the Nation', y **Comisiwn Symudedd Cymdeithasol**, 2017). Fodd bynnag, mae cynyddu mynediad i brifysgolion blaenllaw y DU i fyfyrwyr ledled Cymru wedi bod yn ffocws mawr yn y blynyddoedd diwethaf. Ym mis Mawrth 2013, penodwyd Paul Murphy AS, cyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn Llysgennad Oxbridge i Gymru gan Lywodraeth Cymru. Canfu ei adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014, fod gan fyfyrwyr Cymru gyfraddau derbyn is i Rydychen a Chaergrawnt na'u cyfoedion yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

"Yng nghylch mynediad 2011–12, dim ond 19.5 y cant o'n ceisiadau i ddwy brif brifysgol y DU oedd yn llwyddiannus, o'i gymharu â chyfradd lwyddiant o 25 y cant ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon."

Adroddiad Murphy, 2014

Mae canfyddiadau Murphy yn adlewyrchu patrwm o fyfyrwyr o Gymru'n mynd ymlaen i addysg uwch ar gyfraddau is na'u cyfoedion yng ngweddill y DU. Dangosodd Adroddiad Diwedd Cylch UCAS 2018 fod myfyrwyr o Gymru'n mynd ymlaen i addysg uwch ar raddfa is na myfyrwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon; 29.6% o bobl 18 oed yng Nghymru o'i gymharu â 33.7% o bobl 18 oed o Loegr a 35.2% o bobl 18 oed o Ogledd Iwerddon.

29.6%

33.7%

Yn 2017, aeth 29.6% o bobl ifanc 18 oed yng Nghymru ymlaen i addysg uwch, o'i gymharu â 33.7% o'u cyfoedion yn Lloegr.

Yn rhannol, gellid esbonio'r gwahaniaeth hwn trwy fwch mewn cyrhaeddiad. Dengys system sgorio PISA (y Rhaglen Ryngwladol ar gyfer Aseu Myfyrwyr), sy'n cymharu perfformiad cyfundrefnau addysg ar draws y byd, bod myfyrwyr o Gymru wedi bod yn perfformio'n waeth na gwledydd eraill y DU ers ei sefydlu yn 2006.


Er y gallai bwlch cyrhaeddiad fod yn rhwystr i fyfyrwyr o Gymru gael mynediad i addysg uwch a symud ymlaen i brifysgolion blaenllaw'r DU, ni all esbonio'r darlun cyfan. Canfu Adroddiad Murphy fod y myfyrwyr sy'n perfformio orau yng Nghymru yn gwneud cais i Rydychen a Chaergrawnt ond nad oeddent yn derbyn cynigion. Roedd hefyd yn cymharu Cymru yn benodol â gogledd-ddwyrain Lloegr, rhanbarth tebyg i Gymru, lle canfu bod cyfraddau derbyn yn unol â chyfartaledd y DU er gwaethaf lefelau is o gyrhaeddiad ôl-16 ar gyfartaledd nag yng Nghymru.

Er hyn, mae'r symudiad ymlaen i brifysgolion detholus iawn yn dechrau newid yng Nghymru (WalesOnline, 2019). Mae ceisiadau i Brifysgol Rhydychen gan fyfyrwyr o ysgolion y wladwriaeth yng Nghymru wedi codi o 13% rhwng 2016 a 2019. Yn ystod yr un cylch ceisiadau, derbyniodd 31.5% o fyfyrwyr mewn addysg y wladwriaeth yng Nghymru gynnig i astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt. Mae'r raddfa dderbyn hon yn uwch nag erioed o'r blaen ac yn cymharu â 24.3% yn 2018 a 26.4% yn 2017.


Tyfu yng Nghymru

Dechreuodd The Brilliant Club weithio yn Llundain yn 2011 gyda lleoliadau'r Rhaglen Ysgolheigion yn cael eu dosbarthu i fyfyrwyr yn Academi Llundain yn Edgware. Fodd bynnag, nod yr elusen erioed oedd i'w rhaglenni fod ar gael ar draws y DU gyfan. Ers 2011, bu The Brilliant Club yn gweithio i ehangu ei gyrrhaeddiad ar draws y DU, ac o 2018-19 ymlaen bydd ganddo bresenoldeb ym mhob un o wledydd y DU.

Dechreuodd gwaith cyntaf The Brilliant Club yng Nghymru ym mlwyddyn academaidd 2015-16, gydag aelodau o staff yn cyflwyno sesiynau mewn cynadleddau athrawon yng Nghymru a oedd yn cael eu rhedeg gan raglen flaenllaw ehangu mynediad Llywodraeth Cymru, Rhwydwaith Seren. Cynhaliwyd lleoliadau cyntaf y Rhaglen Ysgolheigion, ble mae ymchwilydd PhD yn cyflwyno tiwtorialau arddull prifysgol mewn ysgolion, ym mis Medi 2016 ac erbyn diwedd haf 2018, mae'r rhaglen wedi'i chyflwyno i 892 o fyfyrwyr o Flwyddyn 5 i Flwyddyn 12 mewn 45 o ysgolion a



Hydref 2016 (pilot – 4 ysgol; 5 lleoliad; 40 o fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 5)



Hydref 2016 i haf 2018 (45 ysgol; 80 lleoliad; 892 o fyfyrwyr o Gyfnodau Allweddol 2, 3, 4 a 5)

cholegau yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym wedi recriwtio, hyfforddi a lleoli 31 o diwtoriaid PhD o brifysgolion Cymru a Lloegr mewn ysgolion yng Nghymru. Ym mis Mai 2018, agorwyd swyddfa yng Nghaerdydd ac rydym bellach wedi cynnal darpariaeth ym mhob cyfnod allweddol yng Nghymru, gan gynnwys nifer o leoliadau mewn colegau Addysg Bellach. Rydym hefyd wedi cynnal y rhaglen mewn dwy ysgol cyfrwng Cymraeg ac un ysgol ddwyieithog.

Mae The Brilliant Club wedi parhau â'i bartneriaeth â Llywodraeth Cymru trwy Rwydwaith Seren, a lansiodd mewn ymateb i Adolygiad Murphy i fynd i'r afael

yn benodol â thangynrychiolaeth myfyrwyr o Gymru yn Rhydychen a Chaergrawnt. Wedi'i gyflwyno trwy rwydwaith o 11 o ganolfannau rhanbarthol ledled Cymru, mae darpariaeth Seren wedi ehangu i gefnogi mynediad i holl brifysgolion blaenllaw'r DU, ac mae'n targedu myfyrwyr Blwyddyn 12 disgleiriaf Cymru gyda rhaglenni gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ochr yn ochr â chefnogaeth academaidd.

Mae ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru wedi bod o gymorth i ni ymgysylltu â llawer o ysgolion sydd wedi ymuno â'r Rhaglen Ysgolheigion yn annibynnol wedi hynny. Efen bwysig o'r bartneriaeth hon oedd The Brilliant Club yn cefnogi cynllunio a chyflwyno cynadleddau cenedlaethol Seren yn 2016-17 a 2017-18. Mynychwyd y cynadleddau deuddydd hyn gan dros

2,000 o fyfyrwyr a staff addysgu, gyda dros 70% o Brifysgolion Sutton 30 a 75% o'r Grŵp Russell yn bresennol. Rydym hefyd wedi cefnogi canolfannau Seren i gynnal dosbarthiadau meist academaidd a sesiynau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad trwy ein rhwydwaith presennol o diwtoriaid PhD, staff The Brilliant Club a staff derbyn prifysgolion.

"Mae gweithio gyda The Brilliant Club...wedi cynnig cyfleoedd gwirioneddol i ymestyn a herio rhai o'n dysgwyr mwyaf dawnus ar lefel prifysgol. Mae pawb a gymerodd ran wedi cael budd mawr o wneud, ac wedi datblygu eu sgiliau ymchwil a dadansoddi yn sylweddol. Mae'r profiadau yma wedi galluogi ein dysgwyr i gystadlu'n llwyddiannus am leoedd ym mhrifysgolion Oxbridge a Grŵp Russell.

O safbwynt rheoli, mae gweithio gyda The Brilliant Club yn brofiad pleserus, oherwydd eu bod bob amser yn effeithlon, yn ddibynadwy ac yn deall sut mae cyfundrefnau ysgolion a cholegau yn gweithio."

Nikki Neale, Cyfarwyddwr Cyfadran a Champws, Coleg Sir Gar, Llanelli

Mae partneriaethau gyda phrifysgolion Cymru hefyd wedi bod yn agwedd hollbwysig ar dwf The Brilliant Club yng Nghymru. Caniataodd partneriaeth beilot gyda Phrifysgol Caerdydd i'r Rhaglen Ysgolheigion recriwtio tiwtoriaid PhD a chynnal teithiau i ysgolion ar draws y de yn ystod hydref 2016. Mae'r cynllun peilot hwn bellach yn bartneriaeth lawn rhwng The Brilliant Club a Phrifysgol Caerdydd i recriwtio tiwtoriaid PhD a chynnal teithiau. O ganlyniad, mae 23 o ymchwilwyr PhD Prifysgol Caerdydd wedi'u recriwtio a'u hyfforddi i gyflenwi 43 o leoliadau ac mae 846 o fyfyrwyr wedi ymweld â'r brifysgol. Yn ogystal â'r rhai o Brifysgol Caerdydd, roedd ymchwilwyr doethurol o Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd ymhlith y garfan gyntaf o diwtoriaid PhD yng Nghymru. Erbyn hyn, mae gan y ddau sefydliad yma bartneriaethau datblygu ymchwilwyr gyda The Brilliant Club, tra bod tiwtoriaid PhD wedi'u recriwtio o Brifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Phrifysgol Aberystwyth.

"Mae The Brilliant Club wedi ymwneud yn arbennig o dda â myfyrwyr yn fy nghanolfan [Seren] i, wrth gynnal sesiynau ar sgiliau astudio neu wrth annog myfyrwyr TGAU i anelu yn uchel yng ngham nesaf eu haddysg. Maen nhw'n cyfathrebu'n effeithiol iawn gyda myfyrwyr ysgol uwchradd o bob oed."


Stephen Parry-Jones, cydlynnydd canolfan Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful

Mae gweithio ledled Cymru a Lloegr hefyd wedi ein galluogi i fynd â myfyrwyr o Loegr i Brifysgol Caerdydd a myfyrwyr o Gymru i sefydliadau yn Lloegr. Erbyn diwedd haf 2018, roedd 268 o fyfyrwyr o Loegr wedi ymweld â Phrifysgol Caerdydd, ymwelodd 119 o fyfyrwyr o Gymru â Phrifysgol Caerwysg ar gyfer eu graddio ac mae 390 o fyfyrwyr o Gymru wedi ymweld â Phrifysgol Bryste.


Tystiolaeth o Effaith

Mae The Brilliant Club wedi llunio [fframwaith canlyniadau](#) yn seiliedig ar dystiolaeth academaidd sy'n manylu ar sut byddwn yn cefnogi myfyrwyr i symud ymlaen i brifysgolion detholus iawn. Mae tiwtorialau mewn ysgolion yn gorffen gyda chyfle i gwblhau aseiniad arddull prifysgol heriol, sy'n cael ei farcio gan diwtoriaid PhD ar sail un cyfnod allweddol uwchlaw eu lefel cyrhaeddiad disgwyliedig. Trwy gymharu aseiniadau terfynol gydag aseiniadau gwaelodlin myfyrwyr, gallwn fesur eu cyflawniad academaidd, sef y sgiliau a'r wybodaeth y mae myfyrwyr yn eu dysgu'n benodol yng nghyd-destun y Rhaglen Ysgolheigion. Mae'r rhain yn cynnwys cyfathrebu ysgrifenedig, gwybodaeth bynciol a meddwl beirniadol. Gyda bwriad i gyflwyno'r cwricwlwm ysgol newydd yng Nghymru yn llawn erbyn 2022, credwn y bydd y cymwyseddau hyn yn ategu pedwar diben y cwricwlwm; yn arbennig i helpu i ddatblygu 'dysgwyr uchelgeisiol, galluog' a 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd'.

Mae'r siart sy'n dilyn yn crynhoi cyflawniad academaidd myfyrwyr o Gymru ar y Rhaglen Ysgolheigion yn 2017-18.



Yn ogystal, nododd myfyrwyr o Gymru a gymerodd ran yn y Rhaglen Ysgolheigion lefelau uwch o baratoi hunanasesiedig ar gyfer mynychu prifysgolion ar ôl y rhaglen. Mae'r siart isod yn nodi canrannau'r myfyrwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â thri datganiad cyn ac ar ôl y rhaglen.



Dwy Her i Dwf yng Nghymru

Bu'n rhaid i ni weithio gyda'n partneriaid i oresgyn dwy her allweddol wrth ehangu ein darpariaeth yng Nghymru:

1. Yr her deithio: gwneud ymyriadau prifysgol yn hygyrch yn y canolbarth a'r gogledd

Wrth i'r Rhaglen Ysgolheigion dyfu yng Nghymru, mae'r ehangu wedi ei ganoli i raddau helaeth yn yr ardaloedd trefol ar draws y de. Ar hyn o bryd, mae naw o brifysgolion yn y wlad, gan gynnwys y Brifysgol Agored, gyda phump wedi'u lleoli yn bennaf neu'n llwyr yn y de. Mae logisteg cyrraedd ardaloedd gwledig yn golygu bod costau uwch ac ymrwymadau amser yn gysylltiedig ag ymweld â phrifysgolion i lawer o ysgolion ar draws y canolbarth a'r gogledd.

Ar gyfer y Rhaglen Ysgolheigion, mae hyn wedi bod yn her wrth i fyfyrwyr ar y rhaglen fynychu dwy daith prifysgol, ac mae ymchwilwyr PhD, sy'n aml wedi'u lleoli yn agos at eu sefydliadau, yn cyflwyno'r rhaglen mewn ysgolion.

Bydd datblygu partneriaethau gyda mwy o brifysgolion Cymru o gymorth wrth recriwtio tiwtoriaid, gan y gall ymchwilwyr o Brifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam deithio i ysgolion yn y canolbarth a'r gogledd yn haws. Trwy weithredu ledled y DU, gall y Rhaglen Ysgolheigion hefyd alw ar ymchwilwyr PhD o sefydliadau yn Lloegr, fel prifysgolion Birmingham, Lerpwl a Manceinion, i wasanaethu ardaloedd yng Nghymru nad ydynt o fewn cyrraedd hawdd o sefydliad yng Nghymru.

Mae gweithio gydag ymchwilwyr PhD ar sail ran-amser hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r rhaglen gyrraedd pob rhan o Gymru yn y pen draw. Mae amserlennu hyblyg yn golygu y gellir rhedeg y rhaglen ar adegau sy'n gyfleus i'r ysgol a'r ymchwilydd. Mae The Brilliant Club hefyd wedi ymrwymo i dalu costau teithio ymchwilwyr PhD ar ben eu cyflog er mwyn sicrhau nad yw costau teithio yn rhwstr i ymchwilwyr sydd eisiau gweithio fel tiwtoriaid ar y rhaglen.

"Gan fy mod i'n dod o deulu lle mae dilyniant Addysg Uwch yn brin, rydw i bob amser wedi bod yn frwd o blaid darparu cyfleoedd i fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig lwyddo. Mae The Brilliant Club yn fy ngalluogi i wneud yn union hynny, ac rwy'n hynod o falch o allu gweithio gyda phobl ifanc frwdfrydig pan fyddaf ar leoliad."

Tiwtor PhD Prifysgol Caerdydd

2. Gweithredu model sydd eisoes yn bodoli yng nghyd-destun penodol cyfundrefn addysg Cymru

Un o'r heriau i sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio ar draws y DU yw gallu sicrhau bod eu modelau gweithredu yn gweithio yng nghyd-destun unigryw pob gwlad, gan na fydd agweddau ar raglen sy'n gweithio gyda'r trefniadau ariannu a'r blaenoriaethau addysgol mewn un wlad o reidrwydd yn berthnasol i un arall.

Mae natur hyblyg y Rhaglen Ysgolheigion yn golygu ein bod wedi gallu addasu ein model gweithredu i fodloni blaenoriaethau Cymru. Er enghraifft, mae meini prawf targedu disgyblion y rhaglen a ddefnyddir yng Nghymru yn adlewyrchu'r ffaith bod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yn cofnodi ac yn cyflwyno gwybodaeth yn wahanol i Fynegai Amddifadedd Incwm sy'n Effeithio ar Blant (IDACI) yn Lloegr neu Fynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban (SIMD). Yn ogystal, mae ein gwybodaeth i ysgolion yn esbonio sut gallant ddefnyddio'r Grant

Datblygu Disgyblion (PDG) i gefnogi'r rhaglen, ac mae'r wybodaeth ei hun ar gael yn [Gymraeg](#) ac yn [Saesneg](#).

"Mae The Brilliant Club yn deall cyd-destun addysgol Cymru a sut mae'n wahanol i wledydd eraill y DU. Mae'n dangos empathi â'r Cyd-destun Cymreig cyfredol ac yn cynnig cefnogaeth barhaus i sefydliadau addysgol sy'n berthnasol i'r angen."

Sian Farquharson, cydlynnydd canolfan

Mae gweithio gyda phartneriaid, fel Llywodraeth Cymru a phrifysgolion yng Nghymru, hefyd wedi bod yn allweddol i addasu'r Rhaglen Ysgolheigion i gefnogi blaenoriaethau addysgol Cymru. Mae penodi Rheolwr Cenedlaethol i Gymru ym mis Ionawr 2017, ac yna Swyddog Rhaglen i Gymru ac agor swyddfa yng Nghaerdydd, hefyd wedi bod yn gam pwysig ar gyfer datblygu presenoldeb yng Nghymru. Mae staff sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn llawn amser mewn sefyllfa well i gynnal a deall cyd-destun cenedlaethol Cymru a gallant addasu ein model gweithredu yn gyflym yn ôl yr angen.

Casgliadau a gwersi a ddysgwyd

Y camau nesaf: cynlluniau ar gyfer twf pellach yng Nghymru

Er bod presenoldeb The Brilliant Club yng Nghymru wedi tyfu ers 2015-16, gan weithio gyda bron i 900 o fyfyrwr erbyn diwedd 2017-18, erys heriau os yw'r Rhaglen Ysgolheigion i gyrraedd ysgolion ledled y wlad.

Un o brif flaenoriaethau The Brilliant Club yw sicrhau bod ei raglenni ar gael i bob ysgol sydd eisiau cymryd rhan, gan gynnwys [ardaloedd gwledig ac arfordirol](#) llai hygyrch. O ganlyniad, mae ehangu'r rhaglen i'r gogledd yn gam nesaf pwysig i'r sefydliad.

Bydd yr elusen hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda chanolfannau Seren i rannu arbenigedd a darparu cefnogaeth yn eu gwaith gyda myfyrwyr Blwyddyn 12 ledled Cymru.

"Ar ôl gweithio fel athro Dyniaethau mewn ysgol gyfun fawr yn ne orllewin Cymru, ac mewn addysg athrawon gychwynnol gyda Teach First Cymru, brait o'r mwyaf yw cael parhau i gydweithio ag athrawon rhagorol i gyflwyno rhaglen i gefnogi ac ymestyn eu dysgwyr. Mae hefyd yn gyfnod hynod gyffrous i fod yn rhan o waith ehangu mynediad a darpariaeth disgyblion mwy abl a thalentog yng Nghymru, gyda chymaint o waith gwych yn cael ei gyflawni trwy Rwydwaith Seren a chan brifysgolion yng Nghymru, ac rydym wedi croesawu'r cyfle i gydweithio â'r rhwydweithiau a'r sefydliadau hyn i ddatblygu ein gwaith."

Greg Scannell, Rheolwr Cenedlaethol Cymru, y Rhaglen Ysgolheigion


Tyfu ar draws y DU

Dylai pob person ifanc gael cyfle teg i fynychu prifysgol ddetholus iawn, ble bynnag y mae'n byw a pha ysgol bynnag y mae'n ei mynychu. Mae ein staff a'n tiwtoriaid yn dod o bob rhan o'r DU a thu hwnt, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Rhaglen Ysgolheigion ar gael i unrhyw ysgol wladol annetholus yn y DU sy'n dymuno gweithio gyda ni.

Bu'r Rhaglen Ysgolheigion ar waith yn yr Alban ers Gwanwyn 2017, gan ddechrau mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Glasgow a Phrifysgol Strathclyde. Yn 2018/19, cynhelir y rhaglen mewn partneriaeth â Phrifysgolion Strathclyde a Chaeredin mewn tair ysgol gynradd yn Glasgow, dwy ysgol uwchradd yng Nghaeredin a phedair ysgol yng Ngogledd Swydd Lanark.

Yng Ngogledd Iwerddon, cynhelir cynllun peilot Rhaglen Ysgolheigion o fis Ionawr 2019 mewn partneriaeth â Phrifysgol Queen's Belfast a Choleg y Drindod Dilyn trwy chwaer sefydliad The Brilliant Club, [AccessEd](#).

Ar yr amod ein bod yn cydweithio ag ysgolion, prifysgolion a rhanddeiliaid eraill, credwn y gellir addasu model gyda hanfodion cryf ar gyfer cyd-destunau amrywiol.



Lleoliadau Rhaglen Ysgolheigion yr Alban ar gyfer 2018/19

Llyfryddiaeth

Donaldson, Graham (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. Fel ar 14 Chwefror 2019 o <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>

Gallagher, S. a **Padley**, J. (2014). *Cyrhaeddiad myfyrwyr Cymru a'r ymgeiswyr sy'n cael eu derbyn i Rydychen a Chaergrawnt: y dystiolaeth*. Fel ar 24 Hydref 2018 o <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cyrhaeddiad-myfyrwyr-cymru-ar-ymgeiswyr-syn-cael-eu-derbyn-yn-rydychen-a-chaergrawnt-y-dystiolaeth-crynodeb-gweithredol-estynedig.pdf>

Jerrim, J. a **Shure**, N. (2016). *Cyflawniad Pobl Ifanc 15 Oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2015*. Fel ar 1 Mehefin 2018 o <https://gweddiill.gov.wales/docs/statistics/2016/161206-pisa-2015-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2017). *Cyflawnwyr uchel ac isel PISA 2015*. Fel ar 1 Mehefin 2018 o <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/171205-pisa-2015-high-and-low-achievers-cy.pdf>

Murphy, Paul. (2014). *Adroddiad Terfynol Llysgennad Oxbridge yng Nghymru*. Fel ar 1 Mehefin 2018 o <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/adroddiad-terfynol-lysgennad-oxbridge-yng-nghymru.pdf>

UCAS. (2019). Adroddiad Diwedd Cylch UCAS 2018.

UCAS. *Equality and entry rates data explorers*. Fel ar 1 Mehefin 2018 o <https://www.ucas.com/data-and-analysis/ucas-undergraduate-releases/ucas-undergraduate-analysis-reports/equality-and-entry-rates-data-explorers>

WalesOnline. *Teen celebrates first Oxbridge place in school's history as Wales gets record places*. Fel ar 1 Mehefin 2019 o <https://www.walesonline.co.uk/news/education/oxbridge-students-wales-oxford-cambridge-16387901.amp>

Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol. (2017). *State of the Nation 2017: Social Mobility in Great Britain*.

Yr Adran Addysg. (2016). *Achievement of 15-Year-Olds in England: PISA 2015 National Report*. Fel ar 1 Mehefin 2008 o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/574925/PISA-2015_England_Report.pdf